ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI

BLWYDDYN YSGOL 2008/2009

1. Y Corff Llywodraethu – Medi 2008

Cadeirydd – Mr Gruff Morris	-	Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd (Awst 2008-2012)
Is- Gadeirydd – Mrs Ffion Hughes	-	Cynrychiolydd Rhieni (Awst 2006-2010)
Gohebydd – Miss Gwyneth Evans		

Aelodaeth

Cyng. Llinos Mêrks	-	Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd (Awst 2008-2012)
Iwan ap Llyfnwy	-	Aelod Cyfetholedig (Awst 2007-2011)
Ulla Weber-Jones	-	Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd (Awst 2007-2011)
Mr Elfed Roberts	-	Aelod Cyfetholedig (Awst 2008 -2012)
Mr Medwyn Williams	-	Aelod Cyfetholedig (Ionawr 2007-2011)
Mrs Carys Parry Jones	-	Cynrychiolydd Rhieni (2007-2011)
Miss Karen Roberts-Jones	-	Cynrychiolydd Rhieni (2007-2011)
Mr Stephen Williams	-	Cynrychiolydd y Rhieni (Awst 2007-2011)
Mrs Judith Owen -		Cynrychiolydd yr Athrawon (Medi 2005-2009)
Mrs Wilma Jones	-	Cynrychiolydd Staff Ategol (Awst 2007-2011)
Mrs Glenys Williams	-	Pennaeth

Pob gohebiaeth drwy law y Pennaeth os gwelwch yn dda.

2. Cyfarfodydd

Yn ystod y flwyddyn addysgol 2008/2009 cyfarfu'r Llywodraethwyr 6 gwaith. Yn ystod y cyfarfodydd hynny trafodwyd :

Adroddiadau ysgrifenedig gan y Pennaeth
Adroddiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Bennaeth
Adroddiadau ysgrifenedig am y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig Cyllid
Cynllun Datblygu'r Ysgol

Cynllun Hybu Ysgol Iach
Saith Cwestiwn Sylfaen ar gyfer Arolygaeth - Mawrth 2009
Diswyddo oherwydd Gormodedd
Trothwy Athrawon
Datblygiadau Proffesiynol 2008-2009
Presenoldeb Disgyblion
Ysgol Nefyn fel Ysgol Werdd
Taflen Werthuso`r Ysgol i Rieni
Polisïau
Hyfforddiant i Lywodraethwyr
Rheoli Perfformiad
Gosod targedau'r Pennaeth a`r Dirprwy
Adeilad yr Ysgol
Llawlyfr yr Ysgol
Adroddiad Blynyddol i Rieni
Cytundebau Lefel Gwasanaeth
Hunan Arfarnu
Defnydd o'r ysgol gan y gymuned gyda'r nos
Teithiau Addysgol
Safle We yr Ysgol
Y Cyfnod Sylfaen
Llwybrau Diogel
Gardd yr Ysgol
Eco Ysgolion
Cyngor Ysgol
Asesiadau Risg
Codi safonau'n yr Ysgol
Trefniadaeth Ysgolion
Ymweliadau Swyddogion Addysg
Ysgol Nefyn yn dathlu 150 mlwyddiant
Canlyniadau TASAU Haf 2008

Digwyddiadau

Dyma flas ar rai o ddigwyddiadau'r flwyddyn:

10/9/08 - B D / B1 / B2- Neuadd Dwyfor - Sioe "Llyfr Bach y Plant"
16/9/08 - B5 yn ymweld â'r Eglwys
19/9/08 - B5- Trip i Borthdinllaen
22/9/08 - Taith gerdded y traeth / Pwll William (B1,2,3,4,5,6)
29/9/08 - Kerbcraft - B1
3/10/08 - B2 / B3 / B4 - ymweld â'r gerddi (allotments) Prynu cynnyrch
4/10/08- B5 / B6- Aelodau'r Cyngor Ysgol- Clwb Pensiynwyr Nefyn- Cân a sgwrs
13/10/08 - B 2,3,4- Cefnamwlch (Cysylltiad â busnes) / Plas Glyn y Weddw (Celf)
21/10/08 - Trip B6. Cae'r Gors / Llanberis
21/10/08 - B5- Ymweld â Chapel Isa
4/11/08 – Twrnament Rygbi`r Dalgylch – B3 / B4
11/11/08 – Twrnament Rygbi`r dalgylch – B5 / B6
13/11/08 – Bocsys `Operation Christmas Child` yn cael eu casglu
14/11/08 – Diwrnod Plant mewn Angen
17/11/08- Tair o ddisgyblion B6- Seremoni Gwobrwyo Cadw Cymru'n Daclus
8/1/09 - Cyngor Cefn Gwlad – Ysgol gyfan
29/1/09 - B2 / B3 / B4 – Amgueddfa Llanystumdwy
24/1/09 - Cwmni'r Fran Wen- Martha Drafferthus, B1 / B2

27/1/09 - Bag2School- Casglu
27/1/09 - Sioe Hei Hogia Bach- (Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol- o dan adain Proseict Darllenwch Filiwn o Eiriau gyda'n gilydd)
28/1/09 - Christina Jones- "Clywed"- gwerth Llyfrgell Nefyn
29/1/09 - Susie- Gwasanaeth
3/2/09 - Anti Nia- Gwasanaeth
9/2/09 - Mr Knowles (Chwist)
10/2/09 - Nesta (Mam Bryn Terfel)
10/2/09 – Robert Roberts - Gwasanaeth
24/2/09 - Cwmni Y Fran Wen- "Martha Drafferthus" B1/2
27/2/09 - Eisteddfod yr Urdd
3/3/09 - Plannu coed yng nghae'r ysgol
3/3/09- Anti Nia- Gwasanaeth
3/3/09 - Lis Heddlu- Cyngor Ysgol
10/3/09 - Gwenllian, ailgylchu- Drwy'r dydd
11/3/09 - Luned Parri, Celf - BD/1
12/3/09 - Luned Parri, Celf - BD/1
12/3/09 - Robert Roberts- Gwasanaeth Capel
13/3/09 – Arlunydd Luned Parri B5/6
17/3/09 – Twrnament Hoci`r Dalgylch - B3 / B4
18/3/09 - Anna Williams- Yr ardd B1-B5
19/3/09 - Elfed- Sgwrs am ei fusnes (B5)
25/3/09 - Lis Heddlu- Cyngor Ysgol
31/3/09 - Ymweld â Choleg y Bala- B2/3/4
31/3/09 – Twrnament Hoci`r Dalgylch - B5 / B6
3/4/09 - Gala nofio
20/4/09 – B6 - Cyflwyniad Blasu Siocled Masnach Deg / Trafod offerynau cerddorol
21/4/09 - Anti Nia- Gwasanaeth
23/4/09 - B6 (1/2 y dosbarth) Ysgol Botwnnog
5/5/09 – Menai Jones - Pennaeth Ysgol Glan y Môr - Blwyddyn 5
12/5/09 - Anti Nia- Gwasanaeth
3/6/09 - Enlli B3/4
4/6/09 - Arlunydd Luned Parri
9/6/09 - Anti Nia- Gwasanaeth
10/6/09 - Pridoas yn yr Eglwys B2 / B3
12/6/09 - Arlunydd Luned Parri- B5
16/6/09 – Twrnamnet Athletau`r Dalgylch - B3 / B4
17/6/09 -19/6/09 - B6 - Glanllyn
18/6/09 -19/6/09 - B5 - Rhyd Ddu
22/6/09 - Gwynant Parri- Tynnu lluniau dosbarthiadau
23/6/09 – Twrnament Athletau`r Dalgylch - B5 / B6
24/6/09 - Ymweliad B6 ag Ysgol Botwnnog
1/7/09 - Ymweliad B5 ag Ysgol Botwnnog
13/7/09 - Prawf beicio – B6

Ymwelwyr
8/9/08- a bob bore Llun am 6 wythnos- Meilir Owen yn addysgu Addysg Gorfforol i Flwyddyn 5
9/9/08 - Anti Nia- Gwasanaeth (Coleg y Bala)
16/9/08 - Anti Susie (Ficer) Gwasanaeth
25/9/08 - Alaw Jones- Trafod gofalu am anifeiliaid anwes-Dosbarthiadau Babanod + Iau
6/10/08 - Cwmni Boomerang- "Cyw" Ffilmio plant B M, D, 1 + 2
7/10/08 - Anti Nia- Gwasanaeth
14/10/08 - Anti Susie-Gwasanaeth

15/10/08 - Lis (Heddlu) Cyngor Ysgol
20/10/08 - Meurig Williams- Heddlu B2,4,6. Ymddygiad / cyffuriau
21/10/08 - Yncl Robat (Gwenidog) Gwasanaeth
24/10/08 - Dilwyn- B5 Archifdy
7/1/09 - Llinos Merks- Dosbarthiadau offer diffodd tân
12/1/09 - Rhys Hywel (Pess) B3/4, Addysg Gorfforol
13/1/09 - Anti Nia- Gwasanaeth
19/1/09 - Ulla- Grwp Bwyd a Maeth- Bwyta'n iach
24/1/09 - Llinos + Carys- edrych ar berfformiad Martha Drafferthus + crwydro o gwmpas y dosbarthiadau i arsylwi
2/3/09 - Elfed yn ymweld â'r dosbarthiadau ac arsylwi
13/3/09 - Robert Roberts- Gwasanaeth Capel

Cyrsiau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd

10/9/08 – Glenys Williams - Hyfforddiant mentoriaid
11/9/08 – Gwyneth Evans - Cynllun Peilot Nofio Cyfnod Sylfaen
23/9/08 - 26/9/08 – Glenys Williams - Ffocysu ar ddatrysiad
23/9/08 – Meirwen Williams - Cydgysylltydd Iaith
25/9/08 – Gwyneth Evans – Cynllun Peilot Nofio Cyfnod Sylfaen
29/9/08 – Glenys Williams - Cyfarfod cyswllt Cynradd / Uwchradd
30/9/08 – Glenys Williams - Cyfarfod Penaethiaidy Dalgylch / Cyfarfod Rhanbarth
7/10/08 – Meirwen Williams - Cydgysylltydd Iaith
8/10/08 – Glenys Williams - Ffocysu ar ddatrysiad
23/10/08 – Glenys Williams / Cyng Llinos Mêrks - Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgolion Gogledd Cymru
10/10/08 – Glenys Williams - Cyfarfod Penaethiaid y Dalgylch
10/11/08 - Gwawr Howel - Celfyddyd Gyfoes
13/11/08 – Glenys Williams - Cynhadledd Penaethiaid
18/11/08 – Meirwen Williams - Cydgysylltydd Iaith
20/11/08 – Meirwen Williams - Cydgysylltydd Iaith
26/11/08 – 28/11/08 - Gwawr Howel / Alison Thompson – Cwrs HADA- Mathemateg, Technoleg a Gwyddoniaeth
3/12/08 – Glenys Williams - Ffocsyu ar Ddatrysiad
12/1/09 – Judith Owen / Bethan Roberts-Jones / Karen Pritchard / Gwyneth Evans – Cwrs y Cyfnod Sylfaen
20/1/09 – Glenys Williams - Cyfarfod Penaethiaid y Dalgylch / Cyfarfod Rhanbarth
21/1/09 + 22/1/09 – Meirwen Williams - Cwrs Arweinyddiaeth
22/1/09 – Glenys Williams - Gweithgor Gwella AAA
23/1/9 – Gwyneth Evans - Cwrs HADA nofio
29/1/09 – Judith Owen - CPCP
4/2/09 – Gwawr Howel / Judith Owen - Gweithdy "Martha Drafferthus" Ysgol Cymerau
26/2/09 – Meirwen Williams - Cydsafoni efo Cyd gysylltwyr Iaith
26/2/09 – Glenys Williams - Cyfarfod Penaethiaid Dalgylch / Cyfarfod Rhanbarth
27/2/09 – Judith Owen - CPCP
27/2/09 – Gwawr Howel - Daearyddiaeth (Cwrs HADA. Anelu at Ragoriaeth)
16/3/09 + 17/3/09 - Gwawr Howel / Alison Thompson – Hada, Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth / Mathemateg
26/3/09 + 27/3/09 - Glenys Williams - Diweddaru Cymorth Cyntaf
28/4/09 – Judith Owen - CPCP
28/4/09 – Glenys Williams - Cyfarfod Penaethiaid Dalgylch / Cyfarfod Rhanbarth
20/5/09- Judith Owen - CPCP

Ffrindiau yn helpu yn yr ysgol
Anti Audrey - Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 (P'nawn Mawrth) Iaith Saesneg
Anti Ella - Blwyddyn 3 a 4 (P'nawn Mercher) Iaith a Gwnio
Anti Jessie – Blwyddyn 2 a 3 (Bore Gwener) Iaith a Darllen

3. Trefn Dosbarthiadau

Ym Medi 2008 roedd 136 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yng ngofal pedair o athrawon llawn amser, un athrawes 0.8,un uwch gymhorthydd llawn amser, dwy gymhorthydd dosbarth, dwy gymhorthydd dosbarth AAA llawn amser,a thair cymhorthydd dosbarth AAA rhan amser a'r pennaeth.

4. Adeiladau'r ysgol

Mae cyflwr yr adeilad yn dal i beri gofid i'r Corff Llywodraethu. Yn ystod y flwyddyn bu difrod i un o ffenestri`r dosbarthiadau a drws allan y storfa chwaraeon, daeth aelod o`r heddlu i ymweld a`r safle. Bu to`r gegin yn gollwng, archwilwyd y to tu allan a thybiwyd fod y dŵr yn chwythu o dan y corn.

5. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn gyfrifol am Gyd-gysylltu'r ddarpariaeth roedd y Pennaeth Mrs Glenys Williams.
Cedwir cofrestr arbennig o'r plant sy'n cael anawsterau â'u gwaith ac ym mis Medi 2008 roedd 22 o blant ar y cofrestr hwnnw.
Ein Seicolegydd yw Elenid Glyn.
Yn Ysgol Nefyn trefnir fod yr holl staff yn ymwneud a'r gwaith a threfnir gwaith gwahaniaethol ar gyfer y plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
Gweithiwyd ar Gynlluniau Addysg unigol a Rhaglenni Gwaith unigol a baratowyd ar gyfer bob disgybl oedd ar y gwahanol gyfnodau ar y gofrestr. Cafwyd adolygiadau ffurfiol ddwy waith yn ystod y flwyddyn. Hefyd roedd cyfarfodydd ac adolygiadau anffurfiol rheolaidd rhwng y Cyd-gysylltydd ADY.a`r athro/athrawes. Defnyddir Cynllun Asesu Da (CRISP) i asesu a darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwaegol y plant. Bydd cyfle i'r plant hunan asesu ac hefyd i fynychu'r cyfarfodydd yn ymwneud ag ADY.
Miss Karen Roberts-Jones yw'r aelod o'r Llywodraethwyr sydd â gofalaeth dros Anghenion Addysgol Arbennig ac Amddiffyn Plant yn yr ysgol.
Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod mynediad hawdd i'r ysgol ar gyfer plant anabl a bod gweithredu prydlon yn digwydd pe byddai unrhyw anhawster yn codi.

6. – Presenoldebau am y flwyddyn

	Babanod	Blwydd. 3	Blwydd 4	Blwydd 5	Blwydd 6
Presenoldebau	93.9%	95.1%	95.6%	94.9%	95.2%
Absenoldebau	6.1%	4.9%	4.4%	5.1%	4.8%
Awdurdodedig					
Anawdurdodedig	0	0	0	0	0

7. Cymdeithasol

2/9/08 - B5- Siop gwerthu dillad ail law ar y stryd-
bob prynhawn (yr elw at y Ganolfan)
10/10/08 - Pnawn Coffi tuag at Cymorth Cristnogol - B2 / B3 / B4
23/10/08 - "Body Shop" a Gemwaith Gill- Noson Rhieni
23/10/08 – BM / BD / B1- canu i drigolion Plas Hafan
4/11/08 – B6 ac Anti Lis (Heddlu) – Clwb Pensiynwyr yn Y Ganolfan
9/11/08 – Gwasanaeth Sul y Cofio – Eglwys Dewi Sant
1/12/08 - B5- Trefnu a Chynnal Pnawn Coffi at y Ganolfan- yn y Ganolfan
10/12/08 - Ffair Nadolig
16/12/08 – Gwasanaeth Nadolig yn yr Eglwys
17/12/08- B1 / B2- Parti Nadolig yng Ngwesty'r Goedlen, Edern
18/12/08- B6- Canu carolau- Londis a Plas Madryn
19/12/08 – B3 / B4 – Parti Nadolig yn Y Ganolfan
19/12/08- B5 / B6- Parti Nadolig yng Ngwesty'r Nanhoron
5/2/09 - Aelodau'r Cyngor Ysgol ym Mhlas Hafan efo Anti Lis (yr Heddlu) sgwrs gyda`r henoed
4/09 - Aelodau`r Clwb Golff yn cynnal sesiynau golffio gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn wythnosol am chwech wythnos
3/7/09 – 10/7/09 - Wythnos dathlu Ysgol Nefyn yn gant a hanner o flynyddoedd oed
Ffair Haf / Mabolgampau / Cyngerdd / Bingo / Helfa Drysor / Eisteddfod
Cynhelir Gyrfa Chwist a Bingo yn wythnosol yn yr Ysgol

Rydym yn dal i anfon newyddion am ddigwyddiadau Ysgol Nefyn i dri papur lleol yn fisol.

Cynllun Brecwast am ddim

Erbyn hyn mae'r Cynllun Brecwast yn weithredol bob dydd am 8 o'r gloch. Bydd nifer y plant sy`n mynychu'r Clwb yn amrywio.

8. Trefniadau Diogelwch o fewn yr ysgol

Arolygir diogelwch y plant yn yr ysgol yn wythnosol gan y Pennaeth a'i Dirprwy a gofynnir i'r athrawon a gweddill staff yr ysgol i hysbysu'r Pennaeth pe bai unrhyw sefyllfa o berygl i blant neu eiddo yn codi yn yr ysgol.
Mae clo rhifol i bob mynedfa i'r ysgol a newidir y rhifau hynny yn achlysurol rhag i'r plant gyfarwyddo â nhw.
Ni chaniateir cerbydau i symud ar dir yr ysgol rhwng 8.30am a 3.30pm oni bai fod oedolyn yn cerdded o flaen unrhyw gerbyd er diogelwch.
Cedwir unrhyw ddogfen neu wybodaeth gyfrinachol dan glo bob amser a gwneir yn siŵr ein bod yn llosgi unrhyw wybodaeth sydd angen ei ddifa.
Byddwn yn cynnal ymarferion tân o leiaf unwaith y tymor.

9. Adolygu'r polisïau

Mae`r ysgol yn llunio ac adolygu polisïau yn ystod y flwyddyn addysgol gan gyflwyno unrhyw newidiadau i bolisïau presennol gerbron y Llywodraethwyr i'w trafod a'u derbyn, gan wneud yn yr un modd gyda pholisïau newydd.

10. Gweithredu ac adolygu strategaethau ysgol penodol

Mae pob strategaeth a ddefnyddir gan yr ysgol yn agored i'w drafod gan y Llywodraethwyr ymhob cyfarfod. Bydd unrhyw strategaeth a ddefnyddir o'r newydd yn gorfod derbyn sêl bendith y Llywodraethwyr cyn ei weithredu.

11. Cynnydd mewn diwallu nodau chwaraeon a'r hyn a gyflawnwyd mewn chwaraeon

Addysgwyd y Cwricwlwm Addysg Gorfforol gan yr Uwch Gymhorthydd a'r athro/athrawesau perthnasol yn y ddau gyfnod allweddol. Addysgwyd nofio gan un aelod o staff yr ysgol a thri hyfforddwr arall ymhob sesiwn.

12. Llwyddiannau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod mis Mawrth 2009 cynhaliwyd arolwg ar Ysgol Nefyn gan ESTYN. Ymfalchiwn am ein bod wedi derbyn graddau 1 a 2 ymhob agwedd a archwilwyd yn yr ysgol.
Ceisiwyd sicrhau fod cyfle teg i holl ddisgyblion yr ysgol gyflawni hyd at orau eu gallu drwy fod yn ysgol gyfeillgar at ddyslecsia,
Derbyniwyd grant ar gyfer gwaith Gyrfa Partneriaeth Addysg a Busnes – Grant Astudiaeth Gelf Gwynedd a Môn er mwyn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer sicrhau addysgu`r plant drwy weithgareddau maes yn y dyfodol.
Llwyddodd yr ysgol i gadw`r Wobr Aur yng Nghynllun Ysgolion Gwyrdd.
Llwyddwyd i gadw`r Faner Werdd yng Nghynllun Ysgolion Gwyrdd.
Roeddem yn hapus iawn gyda datblygiad ein gwefan ysgol a chafwyd gwerthfusiadau positif iawn gan y rhieni.
Llongyfarchiadau MAWR i holl ddisgyblion Ysgol Nefyn am ennill y Faner Werdd i'r ysgol. (Cynllun Eco-sgolion) Mae ymwenud ag eco-sgolion wedi rhoi cyfle i ni fel unigolion ac ysgol i wir asesu ein rolau o fewn y Gymdeithas a'r byd ehangach, gwerthoedd amgylcheddol fydd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ein dyfodol. Gwneir cysylltiad lu gyda'r gymuned ehangach.
Llwyddodd y plant i ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth`Cadw Cymru`n Daclus` oedd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd
Bu llwyddiant mawr yn sioe Nefyn eleni. Enillodd disgyblion Blwyddyn 5 y wobr gyntaf am brosiect cywaith i wneud model ar y testun 'Ein Ardal' allan o ddefnydd ailgylchu.
Bu Wythnos Fenter Busnes y plant yn llwyddiannus dros ben. Roedd cardiau Nadolig a luniodd plant Blwyddyn 6, llyfrau risetiau a luniodd plant Blwyddyn 5, calendars plant Blwyddyn 3 a 4, perlysiau o`r ardd a werthwyd gan blant Blynyddoedd 2 a 3 a phapur Nadolig a thagiau anrhegion a luniwyd gan blant Blynyddoedd 1, Derbyn a Meithrin yn tynnu sylw`r rhieni at eu stondinau gwerthu. Roedd eu holl waith caled yn llwyddiant mawr.
Cynhaliwyd wythnos o weithgareddau amrywiolgyda`r gymuned a`r rhieni i ddathlu penblwydd yr ysgol yn 150 oed.
Llwyddom i gael sied feiciau ar gae`r ysgol, llwybr diogel i lawr y cae a chroesfan pelican o flaen yr ysgol gyda grant Cynllun Llwybrau Diogel i`r Ysgol

13. Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau

Plant Blwyddyn 2
Yn arferol bydd plant yr oed hwn yn gweithio ar lefel 2. Bydd rhai plant yn yr oed, o bosibl yn cael ychydig o drafferth gyda rhai agweddau o'r gwaith ac efallai yn gweithio ar lefel 1. Ar y llaw arall bydd ambell i blentyn yn llwyddo i gyrraedd lefel 3.

Plant Blwyddyn 6
Yn arferol bydd plant yr oed hwn yn gweithio ar lefel 4, ond fel uchod bydd rhai yn gweithio ar lefel is neu ar lefel uwch.
Rhaid pwysleisio bod ystod eang i bob lefel.
Gweler canlyniad asesiadau statudol yr ysgol ar gyfer Cyfnodau 1 a 2 ar wybodaeth gymharol genedlaethol.

Targedau'r ysgol

CA1	TARGEDAU LEFEL 2+			
	2007	**2008**	**2009**	**2010**
CYMRAEG	77.7%	85.7%	91.7%	85.7%
SAESNEG				
MATHEMATEG	77.7%	85.7%	91.7%	85.7%
GWYDDONIAETH	88.9%	100%	100%	92.9%

CA2	TARGEDAU LEFEL 4+			
	2007	**2008**	**2009**	**2010**
CYMRAEG	76.5%	96.3%	92.6%	89.2%
SAESNEG	82.4%	95.6%	77.8%	85.7%
MATHEMATEG	76.5%	81.5%	77.8%	82.1%
GWYDDONIAETH	88.2%	92.6%	92.6%	82.1%

~~12.~~14. Asesiadau athrawes a chanlyniadau TASAU

Formatted: Bullets and Numbering

Cyfnod Allweddol 1

PWNC	Gweithio tuag at	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
Cymraeg	-	-	50%	50%
Mathemateg	-	-	91.7%	8.3%
Gwyddoniaeth	-	-	100%	-

Cyfnod Allweddol 2

PWNC	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Cymraeg	-	7.1%	67.9%	25%
Gwyddoniaeth	-	17.9%	60.7%	21.4%
Mathemateg	-	17.9%	67.8%	14.3%
Saesneg	-	14.2%	42.9%	42.9%

Wrth ystyried yr ysgol yng ngoleuni'r canlyniadau uchod edrychir ar alluoedd y plant yn unigol a'r cynnydd a wnaethant yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Cynllunnir targedau ar gyfer pob plentyn yn unigol yn unol â barn broffesiynol y staff dysgu. Bydd y targedau hynny yn rhai heriol i'r athro yn ogystal â bod yn nod realistig i'r plentyn ymgyrraedd ag o. Gweler atodiad yn dangos y canlyniadau mewn manylder.

~~13.~~15. Polisi Addysg Rhyw a Phersonol

Formatted: Bullets and Numbering

Mae copi o'r polisi addysg rhyw ar gael oddi wrth Bennaeth yr ysgol.

16. Cymdeithas Rieni ac Athrawon

Diolchir i'r rhieni am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn . Mewn atodiad i'r adroddiad hwn, ceir mantolen y Gymdeithas am y flwyddyn addysgol a fu.

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r Corff Llywodraethu ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth cyson.

Dymuna'r Pennaeth ddiolch i'r Llywodraethwyr am eu cymorth hael a'u trafod trylwyr ar bob achlysur yn ymwneud â'r ysgol. Dymuna gydnabod yn arbennig parodrwydd y Cadeirydd i roi o'i amser i sicrhau dealltwriaeth lawn o bob sefyllfa yn ymwneud â rhedeg yr ysgol hon.